Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Bodorgan
# Bodorgan
# Ynys Môn
# LL62 5AB

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2015**

## Cyd-destun

Ysgol fechan wledig yw Ysgol Bodorgan sy’n darparu addysg ddwyieithog i ddisgyblion 4-11 oed o bentrefi Malltraeth, Hermon a Bethel. Daw o dan ofal awdurdod lleol Môn.

Mae 32 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, ac mae niferoedd y disgyblion wedi bod yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf. Nid oes un disgybl oedran meithrin yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Cymraeg yw’r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 32% o’r disgyblion. Yn unol â pholisi’r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg gyda’r nod o’u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Daw tua 6% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae 30% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae’r ysgol wedi adnabod bod 25% o’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn hefyd rhywfaint yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2011. Penodwyd y pennaeth presennol i’w swydd ym Medi 1994.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Bodorgan yn 2014-2015 yw £5,971. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,552 a'r lleiafswm yw £2,870. Mae Ysgol Gymuned Bodorgan yn y trydydd safle o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- Rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn dda ac yn cyfrannu'n frwdfrydig yng ngweithgareddau'r dosbarth
- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg
- Medrau darllen disgyblion yn datblygu yn gadarn
- Presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion yn ardderchog

Fodd bynnag:

- Nid yw lleiafrif o ddisgyblion gallu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent
- Nid oes digon o gynnydd yng ngwaith ysgrifenedig mwyafrif y disgyblion ac nid ydynt yn defnyddio eu medrau i ysgrifennu yn ddigon estynedig ar draws y cwricwlwm
- Nid yw medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi eu datblygu'n briodol
- Mae'r addysgu yn anfoddhaol ar y cyfan gyda gor-ddefnydd o daflenni gwaith parod yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- Nid yw'r corff llywodraethol yn gweithredu'n ddigon strategol nac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn briodol
- Ni fu'r arweinyddiaeth yn ddigon effeithiol hyd yma o ran gwella rhai agweddau ar gyflawniadau disgyblion na'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol
- Nid yw mwyafrif o flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn cael eu cwblhau yn ddigon effeithiol ac maent yn parhau i fod yn feysydd sydd angen eu gwella dros gyfnod estynedig
- Nid yw'r arweinwyr wedi dangos y gallu priodol i sicrhau gwelliannau addas, cynaliadwy
- Nid yw'r staff addysgu yn cael amser priodol ar gyfer cynllunio, asesu a pharatoi

Fodd bynnag:

- Mae gan yr ysgol broses hunanarfarnu briodol sy'n seiliedig ar ystod o dystiolaeth berthnasol
- Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn dwyn sylw dyledus i'w chryfderau ac i'r agweddau sydd angen sylw pellach

- Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol
- Mae’r pennaeth yn llwyddo i greu ethos cryf o waith tîm

## Argymhellion

A1 Gwella medrau rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Codi safonau ysgrifennu estynedig y disgyblion

A3 Gwella gallu’r disgyblion i weithio’n annibynnol

A4 Sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y cynllunio ar gyfer datblygu’r medrau

A5 Gwella’r addysgu er mwyn sicrhau her briodol i bob disgybl

A6 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel arweinwyr strategol

A7 Sicrhau bod blaenoriaethau cynllun gwella’r ysgol yn cael eu monitro’n effeithiol

A8 Sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol o ran mynd i’r afael â baich gwaith athrawon

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r disgyblion yn dechrau'r ysgol ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn dda ac yn cyfrannu'n frwdfrydig yng ngweithgareddau'r dosbarth. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion gallu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n llwyddiannus yn y Gymraeg gan ddefnyddio ystod eang o eirfa yn fedrus o ystyried eu hoed a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith ac mae eu geirfa'n datblygu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i fod yn ddwyieithog erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Mae medrau gwrando'r disgyblion yn datblygu'n briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn fedrus ac yn medru trafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn eu llyfrau darllen. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu hysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ysgrifennu dilyniant o frawddegau yn hyderus, gan ddangos gafael briodol ar atalnodi sylfaenol a phatrymau iaith cadarn. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n ddychmygus ac yn annibynnol gan ddefnyddio geirfa fwy eang i greu effaith; er enghraifft, wrth ysgrifennu dyddiadur diwrnod cyntaf Dwynwen ar Ynys Llanddwyn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae eu dealltwriaeth o ddarllen yn datblygu'n dda. Mae'r mwyafrif yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol i gaffael gwybodaeth benodol o destun. Mae'r goreuon yn trafod ystod o ddeunydd darllen yn aeddfed gan fynegi barn am eu hoff awduron. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn darllen gyda llai o rugldер a mynegiant yn y Gymraeg. At ei gilydd, mae'r mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig yn y ddwy iaith ac yn dangos ymwybyddiaeth addas o atalnodi a pharagraffu. Er hynny, nid oes digon o gynnydd yng ngwaith ysgrifenedig mwyafrif y disgyblion ac nid ydynt yn defnyddio eu medrau i ysgrifennu yn ddigon estynedig a draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau rhifedd. Er enghraifft, mae llawer yn datblygu eu gallu i rifo fesul deg, adio a thynnu hyd at 100, mesur, amcangyfrif, casglu data a chreu tablau yn briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru defnyddio eu medrau rhifedd yn briodol i ddatrys problemau a'u defnyddio i'r un safon ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion uwch eu gallu yn cyrraedd eu llawn botensial.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru defnyddio eu medrau adio, tynnu, lluosi a rhannu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau datrys problemau, ffracsiynau, canrannau, arwynebedd na chyfaint wedi eu datblygu'n ddigonol. Prin yw'r esiamplau o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd mewn meysydd dysgu ar draws y cwricwlwm.

Dros y blynyddoedd diwethaf, nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) sydd wedi bod yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol wrth gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn y 25% uchaf o'i Gymru ag ysgolion tebyg dros gyfnod o dair blynedd ar y deilliant disgwyliedig. Yn 2014, roedd perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg mewn dwy allan o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 50% uwch neu'r 25% uchaf ar y deilliant uwch dros y tair blynedd diwethaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na ffigyrau Cymru mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi bod yn amrywiol dros y pedair blynedd ddiwethaf ac nid oedd un disgybl wedi cyrraedd lefel uwch mewn Cymraeg na Saesneg mewn dwy allan o'r pedair blynedd. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi bod ymhlith y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf, ac mae perfformiad yn 2014 wedi disgyn i'r 50% is mewn Cymraeg a Saesneg. Ar y lefel uwch, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg, gyda Saesneg wedi bod yn y 25% isaf mewn tair o'r pedair blynedd.

Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'r gweddill.

**Lles: Da**

Mae safonau lles y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch o'u hysgol, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Mae bron pob un yn teimlo'n gartrefol a diogel ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae llawer yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i ymarfer y corff er mwyn cadw'n heini.

Mae presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion yn ardderchog. Mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg am y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill. Maent yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr i drefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau. Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol at wneud dewisiadau ynghylch ymweliadau addysgol o fewn y gymuned. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n dda mewn grwpiau wrth ymgymryd â thasgau ar lawr y dosbarth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais ac mae eu hymddygiad wrth chwarae a gweithio yn dda. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, gyda llawer o ddisgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am les disgyblion iau yn ystod amser egwyl ac mewn rhai gwersi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio er mwyn darparu cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion statudol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gwersi bob amser wedi eu seilio'n ddigon cadarn ar gynnwys y cynlluniau hyn. Er enghraifft, nid yw holl ofynion y cwricwlwm mewn mathemateg yn cael sylw priodol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau sy'n bodloni diddordeb ac anghenion mwyafrif y disgyblion. Mae ymweliadau â'r gymuned leol a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cynnig profiadau cadarn i bob disgybl ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ddarpariaeth yn cynnwys nifer o weithgareddau ysgogol sy'n cynnig her briodol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn ddigon cydlynol er mwyn sicrhau cyflawniad na dilyniant sydd yn seiliedig ar ddysgu blaenorol. Yn ogystal, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion o allu uwch.

Mae'r ysgol wedi dechrau ar y gwaith o gynllunio ar gyfer cyflwyno agweddau penodol o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer sicrhau dilyniant yn y medrau ar draws ystod y pynciau na'r meysydd dysgu. O ganlyniad, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyfleoedd digon cyson i gaffael eu medrau. Er bod gan yr ysgol adnoddau addas ar gyfer datblygu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion, nid yw'r cynlluniau gwaith yn sicrhau defnydd digon effeithiol a chyson ohonynt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion adnabod eu hardal ac astudio hanes lleol. Mae hon yn elfen gref o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ardd y mae disgyblion wedi dechrau tyfu llysiau ynddi. Maent hefyd yn plannu blodau yng ngardd henoed y pentref. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd ac yn darparu cyfleoedd addas i alluogi'r disgyblion i ofalu am bethau byw. Mae gweithgareddau codi arian at elusen yn Affrica yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu disgyblion yn ddinasyddion byd-eang. Fodd bynnag, nid yw'r elfen datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu'n llawn hyd yma.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Mae safon yr addysgu yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae disgwyliadau athrawon yn amrywio, gyda'r llai effeithiol yn meddu ar ddisgwyliadau sy'n rhy isel. Mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith parod yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion ac yn gosod meini prawf llwyddiant perthnasol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn cyflawni'r dasg yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y staff yn modelu iaith yn dda ac yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol.

Mewn tua hanner y dosbarthiadau, er bod athrawon yn darparu gwaith sy'n ennyn diddordeb mwyafrif y disgyblion, nid yw'r tasgau yn ddigon heriol i fodloni anghenion lleiafrif sylweddol o ddisgyblion, yn arbennig y rhai uchel eu gallu. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn ystod o feysydd dysgu, yn enwedig mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae safon y marcio yn anghyson ac nid yw'r adborth a roddir i ddisgyblion bob amser yn gysylltiedig â'u cynnydd yng nghyd-destun y meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn llesteirio gallu'r disgyblion i wella.

Mae'r ysgol yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon yn briodol wrth ddadansoddi perfformiad y disgyblion. Yn ddiweddar, maent yn defnyddio system electroneg i olrhain cynnydd, ac mae hyn wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnwys y cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau'r asesu yn ddigon effeithiol i adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn gynhwysfawr ac yn adrodd yn briodol ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar lle mae'r staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel o ran moesoldeb a gofal. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, a diwylliannol yn gadarn. Mae gan staff yr ysgol berthynas gadarnhaol â'r disgyblion, sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth gytûn.

Mae perthynas effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion; er enghraifft, mae'r heddwas lleol yn darparu cyngor i'r disgyblion ar e-ddiogelwch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni anghenion y mwyafrif o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion mwyafrif y disgyblion yn briodol. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ymyrraeth bob amser yn ddigon effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion penodol y lleiafrif ohonynt.

Mae gan ddisgyblion sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd arnynt angen cymorth ychwanegol, gynlluniau addysg unigol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau monitro cynnydd yn ddigon cadarn ac nid ydynt yn cynnwys mewnbwn cyson gan y rhieni na'r disgyblion. O ganlyniad, nid oes gan staff ymwybyddiaeth glir o gynnydd y disgyblion yn erbyn eu targedau gwelliant.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn amgylchedd hapus, cyfeillgar a chartrefol. Mae hi'n ysgol gynhwysol sy'n rhoi cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion ymgymryd â phob agwedd o'r cwricwlwm yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r ethos yn un o gryfderau'r ysgol ac mae'n seiliedig ar annog parch rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion a'i gilydd.

Mae'r ysgol yn gyfoethog o ran maint yr ardal allanol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill grant i brynu offer dringo newydd er mwyn datblygu medrau corfforol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth allanol yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r ardal y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen yn ddi-raen a phrin yw'r adnoddau ar gyfer datblygu gallu'r disgyblion i ddysgu drwy chwarae.

Mae'r safle cyfan yn hygyrch i ddisgyblion ag anableddau. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel a chânt eu cynnal a'u cadw'n briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn aneffeithiol. Er bod y pennaeth wedi llunio gweledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n sicrhau awyrgylch hapus a diogel nid oes ganddo weledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol. Nid yw'r staff addysgu yn derbyn amser digyswllt priodol i gyflawni eu dyletswyddau cynllunio, paratoi ac asesu, ac nid yw'r pennaeth yn derbyn amser digonol ar gyfer ei rôl rheolaethol.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn eu lle ac yn nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau'n briodol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad parhaus y staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol a thargedau rheoli perfformiad.

Mae gan y pennaeth faich trwm o gyfrifoldebau cwricwlaidd traws-ysgol. O ganlyniad, ni fu digon o effaith hyd yma o ran gwella rhai agweddau ar gyflawniadau disgyblion a'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol; er enghraifft, arwain y gwaith o gyflwyno rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn briodol â rhai blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft wrth weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn gwella lles a chyflawniad disgyblion penodol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am ddata perfformiad a chyflawniad disgyblion trwy adroddiadau'r pennaeth ac wrth i ychydig ohonynt ymweld â dosbarthiadau yn achlysurol. Mae hyn

yn gymorth i wella eu gwybodaeth gyffredinol am safonau ac am berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Serch hynny, nid ydynt yn cyfrannu'n ddigon strategol at y broses hunanarfarnu, ac felly cyfyngedig yw eu dealltwriaeth o gryfderau a meysydd i'w datblygu o ran y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Maent yn or-ddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a gosod blaenoriaethau ac nid ydynt yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigonol. Nid ydynt ychwaith wedi mynd i'r afael â sefyllfa ariannol yr ysgol yn ddigon buan.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Er bod gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella, a chynlluniau ar gyfer datblygu, nid yw arweinwyr yn ymateb iddynt yn effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar safonau na darpariaeth. Nid yw arweinwyr wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn dilyn yr arolygiad diwethaf. Mae pedwar argymhelliad pwysig yn parhau fel blaenoriaethau yn y cynllun datblygu presennol. Er enghraifft, dyma'r trydydd arolygiad yn olynol sy'n cynnwys argymhelliad ynglŷn â gwella safonau ysgrifennu disgyblion.

Mae proses hunanarfarnu briodol gan yr ysgol, sy'n ystyried ystod o dystiolaeth berthnasol fel dadansoddiad data perfformiad disgyblion, craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a holiaduron i rieni a disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu a luniwyd gan y pennaeth a'r staff, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn rhoi darlun gonest o'r ysgol. Mae'n dwyn sylw dyledus i gryfderau'r ysgol ac i'r agweddau sydd angen eu gwella.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r ysgol o fewn ei chynllun datblygu. Mae'r cynllun yn nodi nifer o flaenoriaethau gwella sy'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau, ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen weithredu a dangosyddion llwyddiant er mwyn eu cwblhau.

Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys adolygiad o flaenoriaethau cynllun y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid yw effaith y cynllun yn cael ei monitro'n ddigon rheolaidd gan y pennaeth na'r corff llywodraethol. O ganlyniad, nid yw mwyafrif y blaenoriaethau yn cael eu cwblhau yn ddigon effeithiol ac maent yn parhau i fod yn feysydd sydd angen eu gwella dros gyfnod estynedig.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae perthynas gref yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth am ei gweithgareddau a gwaith y dosbarth yn llwyddiannus trwy lythyru amserol. Mae'r rhieni yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn codi arian sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth rhieni yn dda.

Mae cysylltiadau gwerthfawr rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sydd wedi'i leoli ar dir yr ysgol. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth, adnoddau ac arbenigedd rhwng y cylch meithrin a'r ysgol, sy'n sicrhau bod y plant yn trosglwyddo yn esmwyth wrth gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Mae'r ysgolion yn cymedroli gwaith disgyblion ar y cyd ac mae hyn wedi dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar allu athrawon i asesu a lefelu gwaith disgyblion yn fwy cywir. Ar y cyd ag ysgolion y dalgylch, mae'r ysgol wedi prynu meddalwedd ar gyfer olrhain cynnydd. Mae hyn yn cychwyn cryfhau darpariaeth yr ysgol ar gyfer cofnodi cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion. Mae perthynas gref yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo yn esmwyth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae partneriaethau buddiol yn bodoli gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol a'r awdurdod iechyd, sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae partneriaeth agos gan yr ysgol â'r gymuned leol, gyda'r disgyblion yn cymryd rhan yng ngweithgareddau 'Malltraeth Ymlaen', ymweld yn rheolaidd â chartref yr henoed a chymryd rhan mewn cyngherddau yn yr eglwys. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u cyfrifoldebau cymunedol.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol lefel addas o staff ac fe wneir defnydd priodol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhoi cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod addas o adnoddau dysgu, er bod lleiafrif o'r offer technoleg gwybodaeth ac ychydig o lyfrau darllen bellach yn hen ac wedi dyddio.

Mae trefniadau rheoli perfformiad pwrpasol ar waith ar gyfer athrawon ac mae'r staff yn elwa o hyfforddiant addas sy'n cael ei drefnu ar sail anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r angen i leihau baich gwaith athrawon. Nid ydynt yn derbyn amser priodol ar gyfer cynllunio, asesu a pharatoi. Nid yw'r pennaeth ychwaith yn defnyddio amser digonol ar gyfer cwblhau gweithgareddau arwain a rheoli yn briodol. O ganlyniad, nid yw'r materion strategol, fel gweithredu ac adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol, adolygiadau blynyddol o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chynllunio'r medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn cael eu cwblhau yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth yn cyfrannu'n briodol at rwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill ar agweddau fel ymateb i waith disgyblion a datblygu'r defnydd o TGCh. Mae'r profiadau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth yn yr ysgol hon.

Ar y cyfan, mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn dyrannu adnoddau yn addas tuag at flaenoriaethau'r ysgol. Fe ddefnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn briodol i atgyfnerthu'r ddarpariaeth er mwyn gwella lles a safonau disgyblion penodol. Fodd bynnag, mae cyllideb yr ysgol dros y pum mlynedd ddiwethaf yn dangos gorwariant sylweddol, sy'n cynyddu'n flynyddol. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Mae'r ysgol yn cydweithio â'r awdurdod i weithredu cynllun adfer priodol i ddelio â'r gorwariant.

O ystyried deilliannau disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6602134 - Ysgol Gymuned Bodorgan**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 35 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 32.6 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | * | 5 | 5 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | * | 100.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 5 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 100.0 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 20.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 5 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 100.0 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 40.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 5 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 20.0 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 5 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 0.0 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 21 | 21 100% | 0 0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 21 | 21 100% | 0 0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 21 | 21 100% | 0 0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 21 | 21 100% | 0 0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 21 | 21 100% | 0 0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 18 | 17 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 18 | 14 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 20 | 19 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 20 | 17 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 18<br>90% | 2<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 20 | 16<br>80% | 4<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 20 | 16<br>80% | 3<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 17<br>85% | 3<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 20 | 19<br>95% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Tony Bate | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Tegwen Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robin Griffiths | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.